


Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Adroddiad Costau Byw

Hydref 2023

# Methu dod â Deupen Llinyn Ynghyd:

## yr argyfwng costau byw parhaus ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru

# Yr argyfwng costau byw yn dyfnhau ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol ar draws Cymru

Mae'r argyfwng costau byw wedi taro tenantiaid tai cymdeithasol yn galed. Mae llawer o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar incwm isel neu'n hollol ddibynnol ar fudd-daliadau, felly mae rhan fawr o'u harian yn mynd i dalu am hanfodion sylfaenol.

Wrth i brisiau bwyd, tanwydd ac ynni barhau i godi, daeth dod â deupen llinyn ynghyd yn her ddyddiol, ac mae'r sefyllfa yn annhebyg o wella yn y dyfodol agos.

Disgwylir y bydd costau byw yn dal i fod yn uchel gan fod chwyddiant yn parhau ar 4.6%. Ar yr un pryd, cafodd help gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar wedd y cynllun cymorth tanwydd a chynllun gostwng biliau ynni, ei ddileu gan olygu y bydd aelwydydd yn derbyn llai o gymorth eleni[1]. Fel canlyniad, bydd un ym mhob pedwar o'r aelwydydd tlotaf yn wynebu cynnydd o fwy na £100 mewn biliau ynni y gaeaf hwn[2].

Ni all llawer o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol ddianc rhag caledi ariannol parhaus. Mae mwy a mwy yn cael trafferth i dalu eu biliau ynni, yn dibynnu ar fanciau bwyd, yn llithro i ddyled ac yn byw gyda straen ddyddiol ceisio ymdopi.

Tai rhent cymdeithasol yw'r ddaliadaeth fwyaf cyffredin ar gyfer aelwydydd diymgeledd, y math dyfnaf oll o dlodi. Caiff pobl eu hystyried yn ddiymgeledd os nad ydynt yn medru diwallu eu hanghenion corfforol mwyaf sylfaenol i aros yn gynnes, sych a glân ac i fwyta. Mae dau-draean y rhai sy'n byw yn ddiymgeledd ym Mhrydain yn derbyn Credyd Cynhwysol[3], gan ddangos fod ein system nawdd cymdeithasol yn methu gofalu am bobl sy'n wynebu caledi ariannol.

Mae angen i'r llywodraeth **weithredu yn awr** i gefnogi tenantiaid sy'n cael eu gwthio ymhellach i dlodi fel canlyniad i'r argyfwng costau byw.

[1] Yng ngaeaf 2022-2023 rhoddodd Llywodraeth Cymru ostyngiad o £400 i bob aelwyd ar eu biliau ynni ac yn ychwanegol cafodd £200 ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i aelwydydd cymwys drwy'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf.
[2] Resolution Foundation, Energy bills this winter, Awst 2023
[3] JRF, Destitution in the UK, Hydref 2023

→

## → Arolwg costau byw cymdeithasau tai

Mae cymdeithasau tai yn cyfeirio adnoddau sylweddol i helpu eu tenantiaid i ganfod eu ffordd o gwmpas yr argyfwng costau byw cyfredol. Mae atal a lliniaru tlodi yn rhan ganolog o'u diben craidd.

Ym mis Awst 2023, dosbarthodd Cartrefi Cymunedol Cymru arolwg i bob un o'r 34 cymdeithas tai yng Nghymru i ganfod sut mae cynnydd mewn costau byw yn effeithio ar denantiaid a sut y bu cymdeithasau tai yn cefnogi pobl sy'n byw yn eu cartrefi. Cymerodd 24 cymdeithas tai (70%) ran yn yr arolwg, ac felly gellir ei ystyried yn sampl cynrychioladol o'n haelodau. Mae'r gwaith hwn yn dilyn ymchwil flaenorol oedd yn sail i'n hadroddiadau Llawer i'w golli (2021) ac Amser Gweithredu (2022).

## Mae cymdeithasau tai wedi parhau i ymestyn eu cymorth i denantiaid ar amser tra bod yr argyfwng costau byw yn parhau ar gyfer pobl ar draws Cymru

Dengys ein hymchwil fod **pob** cymdeithas tai yn sicrhau fod tenantiaid yn derbyn cymorth holistig sydd yn lliniaru caledi ariannol ar unwaith a hefyd yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol i helpu meithrin gwytnwch ariannol.

Mae staff yn meithrin cysylltiadau ystyrlon gyda thenantiaid a phartneriaid cymunedol, ac maent mewn lle delfrydol i gynnig cymorth ariannol ansawdd uchel pwrpasol. Mae 97% o'r staff yn y gwasanaethau hyn ar gontractau parhaol, gan dderbyn cyllid craidd gan gymdeithasau tai. Maent yn gweithio gyda thenantiaid i gwblhau gwaith papur i gael mynediad i fudd-daliadau a grantiau, canfod talebau banc bwyd ac arian ar gyfer dillad. Maent hefyd yn gweithio gyda thenantiaid i geisio gostwng eu biliau ynni a chanfod arian ar gyfer biliau tanwydd.

> "Cafodd un tenant ad-daliad o £5,000 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel canlyniad i'r cymorth ymroddedig a roddwyd gan staff."

Mae cymdeithasau tai yn helpu tenantiaid i lywio a chael mynediad i gymorth argyfwng ar gyfer costau tai, yn cynnwys help i wneud cais am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai a Chronfeydd Cymorth Disgresiwn awdurdodau lleol. Yn anffodus, mae ein haelodau yn dweud wrthym fod y swm o gyllid sydd ar gael a hwylustod y broses gais ar gyfer tenantiaid yn aml yn loteri cod post. Mewn gwirionedd, nododd 73% o gymdeithasau tai rwystrau pan oeddent yn gwneud cais am y cyllid hwn. Mae'r cymorth argyfwng hwn yn hanfodol ar gyfer cynnal tenantiaethau ac mae'n rhaid ei ddiogelu.

Mae dros draean cymdeithasau tai hefyd yn darparu cyngor mewnol ar ddyledion, ac mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn cynyddu gan y caiff effaith gronnus llymder ariannol ei adlewyrchu yn nyledion personol tenantiaid. Dyled oedd y trydydd maes mwyaf cyffredin o gymorth oedd ei angen gan tenantiaid rhwng Ionawr a Mehefin 2023. Dangosodd ein ymchwil hefyd fod tenantiaid na fu erioed angen cymorth ariannol yn awr yn troi at eu cymdeithasau i gael help. Mae hyn

yn cynnwys aelwydydd mewn gwaith, hunan-dalwyr, a phobl sy'n byw mewn cynlluniau rhent canolraddol a chynlluniau rhan-berchnogaeth.

> "Mae'r math o atgyfeiriad cynyddol gan hunan-dalwyr yn fwy seiliedig ar ddyledion, lle mae cleientiaid wedi bod yn hwyr gyda thaliadau cerdyn credyd a biliau blaenoriaeth tebyg i rent, treth gyngor a chyfleustodau."

> "Ar hyn o bryd, mae argyfwng cost byw a caledi ariannol yn llywio fy ngwaith i raddau helaeth. Wrth i mi ganolbwyntio ar galedi, rwy'n ymwybodol y gallaf fod yn methu â chyflwyniadau cynnar gyda fy nghyfrifon rhent. ...Rwy'n falch iawn o'r gwaith a wnawn a'r gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl. Mae mwy a mwy o drigolion yn troi aton gan nad ydynt yn gwybod ble arall i droi, ond fy mhryder yw pa mor hir gallwn ni gynnal hyn."

Mae mwyafrif (86%) cymdeithasau tai yn cynnig rhaff fywyd ar gyfer tenantiaid mewn argyfwng ariannol ar wedd cronfa caledi. Rhyngddynt mae cymdeithasau tai yn rhoi mynediad i dros **£1.3m mewn cymorth caledi**, ac mae mwy na hanner (59%) wedi cynyddu swm y cronfeydd sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol yma.

Rhwng mis Ionawr a mis Mehefin eleni, ar gyfartaledd cafodd **incwm tenantiaid unigol ei gynyddu gan dros £1,000** ar ôl iddynt gael cefnogaeth gan eu cymdeithasau tai.

Dywedodd 14 o gymdeithasau tai hefyd wrthym faint o incwm ychwanegol y gwnaethant gefnogi tenantiaid i'w dderbyn yn yr un cyfnod: roedd yn gyfanswm o **dros £9 miliwn**.

Yn ogystal â lliniaru tlodi a chaledi ariannol, mae'r gwasanaethau cymorth hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng tenantiaid a'u landlord fel y gallant dderbyn cyngor a chymorth pwrpasol ar gyfer pob maes llesiant.

> "Y mae'n rhaid iddynt (tenantiaid) wneud dewis rhwng rhent, tanwydd a bwyd ... Mae hyn yn effeithio ar lesiant preswylwyr a'u hiechyd meddwl."

Mae effaith feddyliol a chorfforol caledi ariannol yn hysbys iawn. Dangosodd ymchwil ddiweddar gan elusen Mind fod rhai sy'n hawlio credyd cynhwysol fwy na tair gwaith yn fwy tebygol o ystyried hunanladdiad oherwydd yr argyfwng costau byw[4]. Fel canlyniad, mae hanner cymdeithasau tai yn darparu cymorth iechyd meddwl i'w tenantiaid, naill ai yn uniongyrchol neu drwy weithio gyda phartneriaid cymunedol.

[4] "Mind reveals mental health toll of the cost of living crisis" 27 Hydref 2023

→

## → Ymgyrchoedd gwybodaeth tenantiaid

Mae gan gymdeithasau tai rôl leol ganolog wrth alluogi mynediad i arian y mae gan pobl hawl iddo, ac maent yn cynnal ymgyrchoedd gwybodaeth targedig i annog tenantiaid i siarad gyda'u landlordiaid os ydynt mewn anawsterau ariannol.

Croesawn gefnogaeth Llywodraeth Cymru i ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth tebyg i'r llinell gyngor 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi'. Mae CCC yn gweithio gydag adrannau cyfathrebu Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymchwilio negeseuon wedi eu targedu dan ymgyrch genedlaethol Yma i Helpu, gyda'r nod y bydd hyn yn annog y grwpiau hynny o denantiaid tai cymdeithasol a ddynodwyd drwy'r ymchwil hwn i gysylltu eu landlord i gael cymorth yn ogystal â mynediad i gyngor arall sydd ar gael.

## Mae'r galw am gymorth ariannol yn cynyddu ac yn amrywio

Rhwng Ionawr a Mehefin 2023 bu cymdeithasau tai yn gweithio gyda dros 14,000 o denantiaid i gael mynediad i gymorth ariannol a dywedodd 74% bod hyn yn gynnydd o'r cyfnod chwe mis blaenorol.

Mae'r math o denantiaid sy'n gofyn am gymorth yn amrywio'n gynyddol. Mae cymdeithasau tai wedi gweld cynnydd yn y galw am gymorth gan denantiaid gydag incwm anghyson ac aelwydydd llai yn cynnwys pobl sy'n byw ar ben eu hunain neu rieni sengl, gan ddangos y pwysau sydd ar aelwydydd gydag un incwm.

Mae cymdeithasau tai yn ymroddedig i ddarparu cymorth ariannol holistig, fodd bynnag maent yn ei chael yn anodd ateb y galw. Mae gwasanaethau rheng flaen eisoes yn gweithio hyd eithaf eu gallu.

> "Rydym yn gweld tueddiad o bobl yn gofyn am help/cymorth pan maent eisoes yn derbyn yr holl fudd-daliadau mae ganddynt hawl iddynt."

> Cymorth cyfyngedig ac adnoddau cyfyngedig sydd ar hyn o bryd felly rydym yn gorfod llenwi'r bwlch."

Mae cymdeithasau tai hefyd yn rhagweld y byddant yn wynebu pwysau ychwanegol i gefnogi tenantiaid sy'n symud i Gredyd Cynhwysol wrth i symud wedi'i reoli o gredydau treth a budd-daliadau gwaddol gael ei ymestyn ar draws Cymru.

Dim ond rhan o'r pos yw cymdeithasau tai. Mae ein hastudiaethau achos yn dangos yr hyn y gall partneriaethau a chydweithio lleol effeithiol ei gyflawni. Mae cymdeithasau tai yn ymroddedig i weithio gyda grwpiau a mudiadau lleol i greu arbedion maint a rhoi mynediad i'r ystod llawn o gymorth sydd ar gael i'w tenantiaid.

ASTUDIAETH ACHOS UN:

## Cymdeithas Tai Adra

Cysylltodd cyngor tai Adra, mewn partneriaeth gyda Cyngor Ar Bopeth Gwynedd, gyda dros 100 o denantiaid, yn ystod y flwyddyn 2021/22. Er bod llawer o gymdeithasau tai yn cyfeirio tenantiaid at wasanaethau CAB, mae gan Adra berthynas arbennig gyda thîm Gwynedd. Roedd hyn yn cynnwys cytundeb rhannu data sy'n galluogi CAB Gwynedd i gyfathrebu sut mae eu hymgysylltu gyda thenantiaid Adra yn mynd, a rhoi adborth yn uniongyrchol i dimau ymgysylltu tenantiaid ar sail fisol.

Cyfeiriodd Adra at denantiaid mewn dyledion canolog i uchel i CAB Gwynedd, lle mae timau yn rhoi cyngor ar ddyledion, cyngor, trefnu arian costau ynni a chyfleustodau. Bydd CAB yn cadw cysylltiad gyda thenantiaid am gyfnodau hir – weithiau fwy na 12 mis. Bu'r dull hwn yn effeithiol iawn i Adra gan fod rhai tenantiaid yn teimlo'n fwy cysurus yn cysylltu gyda sefydliadau niwtral.

Mae'r astudiaethau achos dilynol yma yn dangos sut mae'r bartneriaeth wedi helpu tenantiaid Adra:

> Cyfeiriwyd Mr D i gael cymorth i apelio yn erbyn penderfyniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd wedi gwrthod ei gais am Daliad Annibyniaeth Personol. Mae Mr D yn dioddef gydag iechyd meddwl ac mae ganddo broblemau symudedd. Arweiniodd y penderfyniad at waethygiad yn ei iechyd meddwl a chaledii ariannol. Yn dilyn ymyriad drwy ailystyried gorfodol, roedd Mr D yn llwyddiannus wrth newid y penderfyniad, ac mae'n awr yn cael y Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) ar y radd uchaf a derbyniodd ôl-daliad.
> **Cyfanswm enillion: £23,251.80**

> Daeth Miss G, mam sengl, atom yn dilyn cyfnod ariannol anodd gyda dyledion o £6,983.33. Roedd ei chredydwyr yn mynd â hi i'r llys a dywedodd ei byddai'n cael anhawster i dalu rhent. Ar ôl edrych i'r mater a chanfod fod digon arian yn dod i'r tŷ, ac nad oedd unrhyw reswm dros y ddyled, daeth yn amlwg fod gan Miss G broblem gyda gamblo. Roedd hyn yn creu dyled ac yn golygu fod Miss G yn cael anhawster i dalu ei dyledion o'i hincwm gwario. Ar ôl derbyn cymorth gyda'i phroblem gamblo, a gweithio ar ei chyllideb, llwyddodd Miss G i roi'r gorau i gamblo a chliriodd ei holl ddyledion dros ychydig o fisoedd.
> **Cyfanswm enillion: £6,983.33**

→

→

Cafodd Miss K ei chyfeirio oherwydd dyled, ac am help i gynyddu ei hincwm. Roedd yn methu gweithio oherwydd salwch. Roedd hyn yn creu anawsterau ariannol wrth i filiau fynd allan o reolaeth a roedd yn methu canfod ffordd allan. Llwyddodd y tîm i gael grantiau i ddileu dyled o £1,900 a roddodd lechen lân iddi gyda'i biliau. Fe wnaethant hefyd lwyddo i gynyddu ei hincwm drwy ofalu aml ei Chredyd Cynhwysol a sicrhau ei bod yn gwneud yr hawliad priodol, a chynorthwyo gyda Thaliad Annibyniaeth Personol – mae'n awr ar y graddiad uchaf ar gyfer y ddwy elfen.


**Y ddyled a gliriwyd: £1,900; cynnydd mewn budd-daliadau: £12,027.80; cyfanswm enillion: £13,927.80**

Mae'n rhaid trin effeithiau andwyol yr argyfwng costau byw a'r diffyg yn incwm tenantiaid cyn y caiff tenantiaid eu gwthio i fwy byth o galedi.

## Mae angen newidiadau polisi i roi cymorth tymor byr i denantiaid tai cymdeithasol sy'n wynebu'r argyfwng

Mae canfyddiadau ein harolwg yn dangos fod tenantiaid tai cymdeithasol yn cael trafferthion i fforddio biliau a chostau byw hanfodol. Bwyd, ynni a rhent yw'r rhesymau mwyaf cyffredin pam fod tenantiaid wedi gofyn am help gan eu cymdeithas tai.

## Y rheswm uchaf pam ofynnodd tenantiaid am gymorth ariannol




Diben craidd cymdeithasau tai yw darparu cartrefi fforddiadwy i'r bobl sydd eu hangen. Mae gosod rhent yn un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnaiff ein haelodau nid-er-elw, ac nid ydynt yn cymryd hynny'n ysgafn. Mae'n benderfyniad sy'n mynd ati i sicrhau cydbwysedd gofalus rhwng fforddiadwyedd ar gyfer tenantiaid unigol gyda buddsoddi yn y cartrefi ansawdd uchel a'r gwasanaethau craidd y maent yn dibynnu arnynt. Bob blwyddyn, mae cymdeithasau tai Cymru yn ymgysylltu'n agos gyda thenantiaid ac yn defnyddio offer fforddiadwyedd a ddatblygwyd gan gyrff tebyg i Sefydliad Joseph Rowntree i sicrhau fod rhenti yn deg ac yn gymesur.

Mae Credyd Cynhwysol yn talu am gostau tai mwyafrif tenantiaid tai cymdeithasol. Byddant yn derbyn taliad tai bob mis o'r Credyd Cynhwysol y bydd angen iddynt eu dalu i'w landlord. Mae'r pwysau ariannol cynyddol a roddir ar aelwydydd yn golygu fod tenantiaid yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd rhwng bwyta, gwresogi eu cartref a thalu eu rhent. Ar gyfer rhai tenantiaid yn yr amgylchiadau mwyaf anodd, caiff y taliad tai a ddyrannwyd iddynt ei ddefnyddio ar gyfer anghenion hanfodol yn lle hynny wrth iddynt ei chael yn anodd iawn i dalu am gostau cynyddol bwyd ac ynni.

Mae cymdeithasau tai wedi ymroi na chaiff neb eu troi allan o'u cartrefi oherwydd caledi ariannol, lle mae'r tenant yn ymgysylltu gyda'u landlord. Y neges y mae cymdeithasau tai yn ei rhannu gyda thenantiaid sydd mewn trafferthion yw bob amser, 'siaradwch gyda ni, gallwn eich helpu'. Byddai'r gwahanol fathau o gymorth ariannol a gynigir gan gymdeithasau tai a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i bob tenant sy'n cael anawsterau i dalu eu rhent.

→

## → Mae'n rhaid i ni sicrhau fod cymorth llesiant yn ddigonol i dalu am hanfodion sylfaenol ac y caiff cymorth y llywodraeth ei ymestyn i warchod tenantiaid rhag costau uchel ynni

**Ynni**

Croesawyd cymorth y llywodraeth ar filiau ynni, ond mae biliau ynni yn dal i fod bron ddwywaith yr hyn oeddent cyn yr argyfwng, ac mae'r cymhorthdal a roddwyd y gaeaf diwethaf drwy'r cynllun cymorth tanwydd gaeaf a'r cynllun gostyngiad biliau ynni wedi dod i ben erbyn hyn. Fel canlyniad, bydd debydau uniongyrchol yn uwch y gaeaf hwn nag oeddent y gaeaf diwethaf.

Mae dyledion ynni wedi cynyddu wrth i bobl ei chael yn anodd talu'r costau cynyddol hyn, gan olygu na all un ym mhob pedwar o bobl gyda dyledion ynni ad-dalu ar hyn o bryd[5].

Rydym angen gweld cymorth pellach yn cael ei gyflwyno ar unwaith i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i ad-dalu dyledion ynni a medru fforddio cynhesu eu cartrefi. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cefnogi'r cynnig Help i Ad-dalu a gaiff ei arwain gan glymblaid o elusennau yn cynnwys NEA Cymru, sy'n galw ar Lywodraeth y DU i gyflwyno cynllun dros dro ar gyfer pobl sy'n cael trafferthion gyda dyledion ynni.

Y llynedd yn ein hadroddiad Amser Gweithredu fe wnaethom alw am gyflwyno tariff cymdeithasol ynni. Er y gwnaeth Llywodraeth DU ymrwymo i ymgynghori ar y mater yn Natganiad yr Hydref, flwyddyn yn ddiweddarach nid ydym wedi gweld unrhyw gynnydd ar hyn.

Rydym felly yn parhau i sefyll wrth ochr ein chwaer ffederasiynau tai, sefydliadau defnyddwyr ac elusennau i ofyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno'r ymgynghoriad a rhoi blaenoriaeth i greu tariff cymdeithasol.

Mae bron hanner tenantiaid tai cymdeithasol Cymru yn defnyddio mesuryddion blaendalu ac fe wnaethom groesawu ymyriad Ofgem yn gynharach eleni i wahardd gosod dan orfodaeth. Wrth i'r gwaharddiad godi a'r cod ymarfer newydd yn dod i rym, mae angen i ni sicrhau fod tenantiaid yn parhau i gael eu gwarchod gan yr amodau a ddodir ar gyflenwyr.

[5] Ymchwil National Debtline

**Llesiant digonol**

Fe wnaeth taliadau costau byw Llywodraeth y DU roi seibiant ar gyfer y tenantiaid hynny a'u cafodd. Dywed cymdeithasau tai wrthym iddynt weld gostyngiad mewn ceisiadau am gymorth ariannol yn fuan ar ôl i'r arian gael ei dalu, ond am gyfnod byr y gwnaeth hyn barhau, ac yn gyffredinol roedd mwy o denantiaid yn gofyn am help wrth i'r misoedd fynd heibio.

Mae dau-draean y rhai sy'n byw yn ddiymgeledd yn y Deyrnas Unedig yn derbyn Credyd Cynhwysol, gan ddangos fod ein system nawdd cymdeithasol yn methu cyflawni ar gyfer pobl sy'n wynebu caledi. Wrth i'r argyfwng waethygu, mae angen i ni sicrhau fod y system llesiant yn rhoi cymorth digonol fel nad yw tenantiaid byth yn gorfod ystyried dewis rhwng hanfodion.

> "Dw i'n siarad â llawer mwy o ddeiliaid contractau gwaith sydd wedi'u hatgyfeirio ataf ar ôl i hyfforddwyr incwm gwblhau cyllidebau gydag ydiffygion. Dw i'n ei chael hi'n anodd cynorthwyo gyda rheoli eu cyllidebau gan nad ydyn nhw'n ffrwydron, ond ni allan nhw dalu am y pethau sylfaenol. Rwyf hefyd yn gweld pobl a oedd yn rheoli eu dyledion yn flaenorol ond oherwydd cost byw presennol maen nhw bellach yn cael trafferth ac nid yn cadw i fyny â chynlluniau talu a oedd arfer bod yn rheoliadwy. Mae llawer o bwysau arna i, gan fod yn aml yn yr achosion hyn, ychydig iawn y gallaf ei wneud."

Caiff Cartrefi Cymunedol Cymru ei enwi fel cefnogwr i'r ymgyrch Gwarant Hanfodion a lansiwyd gan Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree sy'n galw am **ddiwygio Credyd Cynhwysol i sicrhau fod yr isafswm lefel cymorth yn gwarantu y gall pobl dalu am hanfodion**.

Mae hefyd angen i ni sicrhau nad yw'r cymorth argyfwng a roddir ar wedd blaendaliadau Credyd Cynhwysol yn creu cylch dyled sy'n parhau mewn cyllidebau negyddol. Dylai'r swm y gall y llywodraeth ei dynnu o lwfans misol person i ad-dalu dyledion gael ei ostwng i sicrhau fod ad-daliadau yn fforddiadwy.

[6] https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2023

## → Rydym yn annog Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i symud ymlaen gyda'r camau gweithredu dilynol ar unwaith:

**Llywodraeth y DU:**

1. Cadarnhau y caiff budd-daliadau eu cynyddu yn unol â chwyddiant o fis Ebrill.
2. Rhoi blaenoriaeth i greu tariff cymdeithasol ynni a darparu opsiynau ad-dalu fforddiadwy ar gyfer rhai sydd mewn dyled ynni, gan adleisio galwadau gan NEA Cymru, elusennau a sefydliadau defnyddwyr.
3. Sicrhau nad yw gorfodi gosod mesuryddion blaendalu yn ailddechrau ar gyfer aelwydydd sy'n fregus yn ariannol.
4. Ymrwymo i adolygu a chynyddu'r Credyd Cynhwysol i sicrhau fod isafswm lefel cymorth yn gwarantu y gall pobl dalu am hanfodion, gan weithredu galwadau gan JRF ac Ymddiriedolaeth Trussell am Warant Hanfodion.

**Llywodraeth Cymru:**

5. Gwarchod cronfeydd argyfwng presennol a sicrhau fod y llwybrau i gymorth yn hygyrch ac wedi eu targedu at y rhai sydd fwyaf o'i angen.
6. Parhau i gyllido cynlluniau hanfodol sy'n targedu tlodi tanwydd a bwyd, ac sy'n cefnogi cyfraddau uwch o ddefnyddio budd-daliadau.

**Mewn ymateb, bydd cymdeithasau tai yn:**

1. Parhau i gefnogi tenantiaid gyda chymorth ariannol ac eiriolaeth, a monitro effaith y gwaith hwn.
2. Parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth sy'n annog tenantiaid tai cymdeithasol i droi at eu landlord i gael help.
3. Parhau i ymchwilio partneriaethau cymunedol i alluogi tenantiaid i gael mynediad i gymorth tymor byr, yn cynnwys partneriaethau gyda banciau bwyd ac undebau credyd lleol.
4. Sicrhau fod rhenti yn fforddiadwy ar gyfer tenantiaid, drwy gysylltu gyda thenantiaid a defnyddio offer i ddeall fforddiadwyedd.

ASTUDIAETH ACHOS DAU:

# Cymdeithas Tai Cadwyn

Cysylltodd swyddog cynhwysiant ariannol Cymdeithas Tai Cadwyn gyda thenant oedd mewn risg o fynd i ôl-ddyledion rhent. Cymerodd fisoedd o ymgysylltu cyn fod y tenant yn teimlo'n ddigon cysurus gyda staff Cadwyn i ddatgelu ei amgylchiadau personol: roedd wedi goroesi trais domestig ac yn dioddef o broblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â'r trawma hwn yn y gorffennol.

Canfu'r swyddog fod partner blaenorol y tenant wedi cadw tystysgrifau geni eu dau blentyn, gan olygu nad oedd y tenant yn medru hawlio budd-dal plant ar gyfer y naill na'r llall o'r plant, na'u rhoi ar hawliad budd-dal tai y tenant. Dangosodd asesiad llawn fod y tenant mewn caledi ariannol difrifol.

Cynorthwyodd swyddogion Cadwyn y tenant i ddiweddaru ei chais am Fudd-dal Tai a gwneud cais am Fudd-dal Plant a Chredyd Treth Plant. Talodd Cadwyn hefyd am gopïau o'r tystysgrifau geni a chefnogi'r tenant gyda'r ceisiadau, gan ymweld â hi yn rheolaidd i fynd drwy'r gwaith papur helaeth oedd ei angen. Fe wnaeth y swyddog hefyd lenwi atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol/gwasanaethau plant fel y medrent gefnogi'r tenant a'u plant gyda'u bywyd cartref.

Gyda'r help a'r cefnogaeth drylwyr yma gan Cadwyn, fe gynyddodd incwm y tenant dair gwaith drosodd. Mae ei chyfrif rhent yn awr yn hollol gyfredol a chaiff ei dalu'n llawn bob mis yn uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bu gwelliant mawr hefyd yn ei hamgylchiadau personol ac mae'r plant yn ffynnu yn yr ysgol.

→

→

ASTUDIAETH ACHOS TRI:

# Cartrefi Melin

**Cymorth ariannol**

Mae'r gymdeithas wedi cynyddu incwm tenantiaid gan £10m dros y 10 mlynedd ddiwethaf, yn cynnwys £1.4m yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf drwy gymorth dyled, cymorth ynni, ceisiadau grant a chymorth i hawlio budd-daliadau. Mae'r gymdeithas hefyd yn cefnogi tenantiaid drwy gyflwyno a mynychu tribiwnlysoedd budd-dal. Yn ychwanegol, mae hefyd yn aelod gydag achrediad o AdviceUK sy'n rhoi sicrwydd i'w tenantiaid eu bod yn cael eu cynorthwyo gan sefydliad gwybodus yr ymddiriedir ynddo.

**Taclo tlodi bwyd a thanwydd**

Mae Melin wedi cyflenwi cyfanswm o dros £50,000 mewn talebau tanwydd a bwyd. Mae hyn yn werthfawr tu hwnt i denantiaid gan ei fod yn rhoi cymorth ar unwaith pan maent mewn caledi gan y gellir anfon y talebau ar neges destun neu drwy e-bost. Mae'r gymdeithas tai wedyn yn gweithio gyda thenantiaid i gyfarch achosion gwraidd eu cyllideb negyddol i ganfod ffyrdd cynaliadwy i ostwng eu dibyniaeth ar dalebau bwyd a thanwydd.

**Helpu tenantiaid i ganfod gwaith**

Y llynedd fe wnaeth Melin helpu 52 o breswylwyr i gyflogaeth gynaliadwy lawn-amser neu ran-amser drwy roi cymorth gydag ysgrifennu CV, cyngor da ar gyfer cyfweliadau, meithrin hyder a chymorth ariannol i brynu dillad gwaith addas. Mae'r gymdeithas tai wedi adeiladu cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Roedd un tenant a gefnogwyd drwy'r cynllun yn berson oedd wedi ailsefydlu yma o Afghanistan; daeth o hyd i waith fel swyddog diogelwch a chafodd ei ddyrchafu'n gyflym i fod yn arweinydd tîm.

ASTUDIAETH ACHOS PEDWAR:

## Grŵp United Welsh

Yn 2022 cyflwynodd United Welsh gwrs Live Life to the Full i helpu diwallu anghenion cynyddol cwsmeriaid yn benodol yng nghyswllt iechyd meddwl. Cynlluniwyd cwrs Live Life to the Full ar gyfer pobl sy'n ynysig, gyda hunan-dyb isel, diffyg hyder, pryder, hwyliau isel neu gymhelliant eleni.

Eleni gwelodd United Welsh gynnydd mewn cwsmeriaid oedd mewn iechyd gwael ac yn cael trafferthion gyda'u llesiant, ac effaith negyddol hyn ar eu bywydau bob dydd. Mae hyn yn amlygu ei hun mewn pobl yn teimlo na fedrant fynd i'r afael â gwaith tŷ megis glanhau, tacluso a garddio; delio gyda'u biliau; rheoli problemau gyda chymdogion neu broblemau teuluol heb gael cefnogaeth; cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain.

Cyflwynodd United Welsh y cwrs chwech wythnos ar gyfer cwsmeriaid i goleddu eu cryfderau. Mae 40 cwsmer wedi cymryd rhan ac maent i gyd wedi adrodd gwelliannau sylweddol yn eu hiechyd a'u llesiant, hunanbarch a hyder.

Mae llawer o'r rhai a fynychodd hefyd wedi ymrestru mewn hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli, gyda phawb yn dweud y cafodd y cwrs iechyd effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Dywedodd un a gymerodd ran, "Mae'r cwrs wedi rhoi mwy i ddealltwriaeth i fi o sut mae fy iechyd meddwl yn effeithio arnaf i a'r bobl o fy amgylch. Mae hefyd wedi rhoi mwy o ffyrdd i fi i reoli fy iechyd meddwl, gan fy ngalluogi i ddeall yr hyn y gallaf ei reoli a'r hyn na allaf ei reoli."

→

→ ASTUDIAETH ACHOS PUMP:

## Cartrefi Cymunedol Tai Calon

Drwy gynnal partneriaeth bwyd leol ar gyfer Blaenau Gwent, mae gan Tai Calon ffocws ychwanegol ar ddiogelwch bwyd a datblygu rhwydweithiau bwyd.

Mae cydlynydd bwyd cynaliadwy Tai Calon yn rheoli Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent sy'n cefnogi unigolion a sefydliadau sy'n gweithio ar draws system fwyd Blaenau Gwent; yn hyrwyddo dewisiadau bwyd iachus, cynaliadwy a theg iawn ac yn darparu gwybodaeth am fanciau bwyd lleol, gwasanaethau parseli neu barod ac prosiectau tyfu cymunedol. Er enghraifft;

- Clwb pot slyw
- Canolfannau hadau llysiau
- Cefnogi pentrefi bwyd ar draws cymunedau
- Manwerthu tyfu bwyd

ASTUDIAETH ACHOS CHWECH:

# Cartrefi Cymunedol Tai Calon

Rhoddodd Tai Calon gymorth a newidiodd fywyd tenant mewn cyfnod o angen.

Yn dilyn damwain drasig pan gafodd ei blentyn (oedd yn oedolyn) a dau o wyrion y tenant eu lladd, bu'n byw gyda chyfaill. Cafodd ddwy wythnos yn unig i ganfod llety arall ac nid oedd ganddo gyfrif banc neu dull adnabod ar gyfer agor un. Dim ond y dillad oedd ar ei gefn y diwrnod hwnnw oedd gan y tenant.

Camodd Joanne Jones a Janice Elliott, Gweithwyr Cymorth Lifft gyda Tai Calon, i mewn i helpu. Fe wnaethant gais am dystysgrif geni a sicrhau fflat yn un o gynlluniau gwarchod Tai Calon. Fe wnaethant hefyd gofrestru'r tenant newydd gyda banc a meddygfa a defnyddio Cronfa Galedi Tai Calon i gael dillad gwely, llestri, sosbenni, celfi cegin a bwyd. Gwnaethant geisiadau llwyddiannus am Fudd-dal Tai/Treth Gyngor.

Fel canlyniad, mae gan y tenant £1,252 ychwanegol y flwyddyn (£15,024 y flwyddyn) a thaliad unigol o £2,742. Roedd yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafodd, a dywedodd:

> "Nid oes neb erioed fy helpu o'r blaen na gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen i fi. Diolch yn fawr iawn i chi. Rwyf wrth fy modd gyda fy nghartref, rwy'n methu credu mai fy lle i yw e."

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

chcymru.org.uk | enquires@chcymru.org.uk

Cofrestrwd dan y Ddeddf Cwmniau 1985
Rhif Cofrestru: 2380564
Rhif Cofrestru Elusen: 1128527